

**CYNGOR CYMUNED LLANDUDOCH**  
**ST. DOGMAELS COMMUNITY**  
**COUNCIL**


**Adroddiad Blynyddol /**  
**Annual Report**  
**2021/2022**



*Golygfeydd ar draws Llandudoch / View across St Dogmaels*

**Cyngor Cymuned Llandudoch**  
**St Dogmaels Community Council**

**Ffon / Tel: 01239 872116 E-bost / E-mail: [stdogmaelscc@outlook.com](mailto:stdogmaelscc@outlook.com)**  
**Gwefan / Web: <http://stdogmaels.org/>**



## Adroddiad y Cadeirydd 2021/22

Mae hon wedi bod yn flwyddyn heriol oherwydd effaith Covid. Mae'r Cyngor Cymuned yn cydnabod ac yn diolch i'r holl gyrff lleol a'r unigolion am eu gwaith cefnogi gwyh i ddarparu cymorth adeg yr hunan-ynysu oherwydd Covid.

Mae'r Cyngorwyr wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd er y cyfyngiadau oherwydd y cyfnodau clo, gan ddefnyddio technoleg amgen i gynnal cyfarfodydd a mynd ymlaen â'u busnes. Er yr anawsterau gyda Covid, mae nifer o brosiectau a digwyddiadau yn y pentref wedi eu cwblhau'n llwyddiannus.

Fodd bynnag, gan sylweddoli nad yw pawb yn gyffyrddus yn defnyddio technoleg a chyfryngau cymdeithasol, cafodd yr hysbysfyrddau ar draws y pentref a oedd wedi mynd â'u pen iddynt eu symud, a gosodwyd yn eu lle fyrddau newydd ar gyfer pob tywydd nad oes angen fawr o ofal arnynt, ac mae hyn yn helpu cyfathrebu.

Gan edrych ymlaen a chadw mewn cof effaith Covid ar fywydau pobl ac ar yr economi leol, gwnaeth y Cyngor Cymuned arbedion sylweddol a chwtogwyd ei gyllideb er mwyn lleihau'r praesept<sup>1</sup> ar gyfer 22/23, ac felly lleihawyd y baich o'i gyfran o'r dreth cyngor ar gyfer y pentref.

Ac yn olaf, llongyfarchiadau a diolch i Glerec ein Cyngor Cymuned ar ennill cymhwyster Llywodraethiant Cymunedol yn 2021 a rheoli busnes y Cyngor drwy gydol y pandemig. Ni allem fod wedi dod i ben hebdi.

Phil Hutchings  
Chairman, St Dogmaels Community Council

## Chairman's Report 2021/22

This has been a challenging year due to the impact of Covid. The Community Council recognises and thanks all the local organisations and individuals who did sterling support work providing assistance to those who were affected due to Covid isolation.

Councillors have worked well together, despite the restrictions placed on the Council due to lockdowns, using alternative technology to hold meetings and carry on its business. Despite the Covid difficulties, a number of projects and events in the village have been successfully completed.

However, realising that not everyone is comfortable with technology and social media the dilapidated notice boards throughout the village were replaced with new, all weather, low maintenance boards which help to improve communications.

Looking forward and mindful of the effect Covid has had on people's lives and the local economy, the Community Council made significant savings and cutbacks in its budget in order to reduce the precept<sup>2</sup> for 22/23, thus reducing the burden of its portion of the council tax for the village.

And finally, my congratulations and thanks must go to our Community Council Clerk who achieved the Community Governance qualification in 2021 and managed the business of the Council throughout the pandemic. We could not have managed without her.

Phil Hutchings  
Chairman, St Dogmaels Community Council

<sup>1</sup> Treth a godir gan Gyngorwyr Tref a Chymuned ar eiddo an-fasnachol o fewn eu ward etholiadol, yn cael ei chasglu drwy gyfrwng y Dreth Cyngor.  
<sup>2</sup>A tax levied by Town and Community Council's on non-commercial properties within its electoral ward, collected via the Council Tax.

# Uchafbwyntiau'r Flwyddyn / Highlights of the year

## MAN CHWARAE

Yn 2021-22 gorffennwyd ariannu tua £140k i adfer y lle chwarae, gan derfynu gyda chodi ffens i atal peli rhwng y lle chwarae a'r cae pêl-droed a'r ffens fetel.



S

## PLAYGROUND

2021-22 concluded the funding of approximately £140k of the playground regeneration project, culminating in the erection of ball stop fencing between the playground and football field and metal bow top fencing.

## Pentref yn ei Flodau

Er gwaethaf y problemau Covid, trefnodd y Cyngor Cymuned unwaith eto ei gystadleuaeth boblogaidd Yn Ei Flodau, ond ar ffurf ffotograffig newydd.

## Village in Bloom

Despite the issues presented by COVID the Community Council once again ran its popular In Bloom competition but in a new photographic format



*Cyflwyniad gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned i enillydd Pentref yn ei Flodau / Presentation by the Council Chairman to a Village in Bloom winner*

## Parch

Trefnwyd y Diwrnod ANZAC a Gwasanaeth y Cofio wrth y Gofeb Rhyfel, er ar raddfa lawer llai oherwydd Covid. Codwyd y Lluman Coch ym mis Medi yng Nglanteifion i nodi aberth y rhai a fu'n gwasanaethu yn y Llynges Fasnachol yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd.



*Gosod torch wrth y Gofeb Rhyfel / Wreath laying at the War Memorial*

## Respect

Both the ANZAC Day and Remembrance Service were organised at the War Memorial, although in a much-reduced format due to COVID.

The Red Ensign was raised, in September, at Glanteifion to mark the sacrifice of those who served in the Merchant Navy during WWI and WWII.

## Diffibrileiddwyr

Wrth i bryderon gynyddu am yr amser aros am wasanaethau argyfwng meddygol, penderfynodd y Cyngor Cymuned

- Ddiweddarau blwch y diffibrileiddiwr ym maes parcio'r stryd fawr
- Neilltuo arian ar gyfer diffibrileiddiwr newydd yn y Moorings
- Gofyn am ganiatád i osod diffibrileiddiwr ar Draeth Poppit

## Defibrillators

As concerns rose with regard to waiting times for medical emergency services the Community Council

- Updated the defib cabinet in the High St car park
- Earmarked money for a new defib at the Moorings
- Sought permission to install a defib at Poppit Sands



Codwyd coeden Nadolig gan y Cyngor Cymuned yn y Cartws / Christmas tree erected by the Community Council at the Coach House

## Digwyddiadau

Nodwyd Nos Calan Gaeaf gan daith o gwmpas y pentref, gan ddod i ben drwy ddsbarthu melysion ar Stondin y Cyngor yn y Cartws.

Bu'r goeden a'r goleuadau Nadolig yn ganolbwynt ar gyfer nifer o ddigwyddiadau. Rhoddodd y Cyngor arian o'r neilltu ar gyfer digwyddiadau ym mis Mehefin 2022 i ddatlu Jiwbilî Platinwm y Frenhines Elizabeth II.



Danteithion ar gyfer y rhai a dilynodd y daith Calan Gaeaf / A treat in store for those who braved the Halloween trail

## Events

Halloween was marked by a trail around village culminating in a reward of sweets in the Council stall at the Coach House. The Christmas tree and lights at the Coach House proved a focal point for several events. The Council set aside funding for events to take place in June 2022, to celebrate the Platinum Jubilee of HM Queen Elisabeth II

## Hysbysfyrddau

Os byddwch eisiau gwybod beth sy'n digwydd yn y pentref, edrychwch ar hysbysfyrddau'r Cyngor Cymuned. Wrth ystyried ble i'w gosod wrth eu hadnewyddu y llynedd, roedd ychydig ofal yn elfen allweddol. Mae'r Cyngor Cymuned yn gobeithio cael caniatâd i osod hysbysfwrdd cymunedol newydd ar Draeth Poppit yn 22-23.

## Noticeboards

If you want to know what is going on in the village, look no further than the Community Council noticeboards with low maintenance being a key consideration when they were replaced during the year. The Community Council hopes to receive permission to install a new community notice at Poppit Sands in 22-23.



Y Pinog, Mehefin 2021 / The Pinog, June 2021



## Bioamrywiaeth

Er mwyn cefnogi a gwella bioamrywiaeth yn y pentref, trefnodd y Cyngor Cymuned arolwg o'i holl dir, ac yn 2021 cytunwyd i gynnal rhaglen beilot 3 blynedd yn seiliedig yn bennaf ar y Pinog. Lle'r oedd yn bosibl, gan gymryd i ystyriaeth ddefnyddio'r tir ac agweddau daearegol eraill, cafodd y drefn bresennol o dorri cloddiau ei haddasu gyda'r nod o wella'r safleoedd sydd wedi'u dewis ar gyfer peillwyr a mathau eraill o fywyd gwylt. Mae'r canlyniadau cychwynnol eisoes yn dangos cynnydd mewn blodau gwylt brodorol a bod mwy o bryfed peillio'n defnyddio'r safleoedd penodol. Gyda'r cyfyngiadau Covid wedi dod i ben, mae'r Cyngor Cymuned yn gobeithio cynnwys y trigolion mewn arolygon yn y dyfodol.

## Biodiversity


To support and improve Biodiversity in the village the Council carried out a study of all its land and in 2021 agreed to carry out a 3-year pilot programme based mainly at the Pinog. Where possible, taking into account land usage and other geological aspects, the existing cutting regime was adjusted aiming to improve the chosen sites for pollinators and other wildlife. Initial results have already seen an increase in native wild flowers and pollinating insects using the pilot areas. With Covid restrictions lifted the Community Council hopes to involve residents in future monitoring surveys.

## Cyllid / Finance

### Incwm 2021-22 / 2021/22 Income

Praesept o £49276 ac unrhyw wariant ychwanegol yn dod o'r cronfeydd wrth gefn

Precept £49276 with any additional expenditure being taken from reserves



### Cyllideb 2021/22 - £64116 2021-22 Budget - £64116




- |                                     |                                   |
|-------------------------------------|-----------------------------------|
| Taliadau i Gyngwr a Threuliau       | ■ Payments to Cllrs and expenses  |
| Defnydd swyddfa/inc                 | ■ Office supplies / ink           |
| Cynnal a chadw, trwsio a defnyddiau | ■ Maintenance, repair & materials |
| Pwyllgor Priffyrdd                  | ■ Highways Committee              |
| Rhoddion                            | ■ Donations                       |
| Adloniant                           | ■ Entertainment                   |
| Cyflog/Treuliau etc y Clerc         | ■ Clerk's salary / exp etc        |
| Hurio'r Neuadd /ZOOM                | ■ Hall hire / ZOOM                |
| Proffesiynol, Yswiriant a Thanysgr  | ■ Professional / Insurance/ Subs  |
| Lle Chwarae                         | ■ Playground                      |
| Cyfalaf/Prosiectau                  | ■ Capital/ Projects               |
| Gwasanaeth y Cofio etc              | ■ Remembrance Service etc         |

**2021/22 Gwariant - £59339**  
**2021/22 Expenditure - £59339**



- |                                     |                                   |
|-------------------------------------|-----------------------------------|
| Taliadau i Gyngwr a Threuliau       | ■ Payments to Cllrs and expenses  |
| Defnydd swyddfa/inc                 | ■ Office supplies / ink           |
| Cynnal a chadw, trwsio a defnyddiau | ■ Maintenance, repair & materials |
| Pwyllgor Priffyrdd                  | ■ Highways Committee              |
| Rhoddion                            | ■ Donations                       |
| Adloniant                           | ■ Entertainment                   |
| Cyflog/Treuliau etc y Clerc         | ■ Clerk's salary / exp etc        |
| Hurio'r Neuadd /ZOOM                | ■ Hall hire / ZOOM                |
| Proffesiynol, Yswiriant a Thanysgr  | ■ Professional / Insurance/ Subs  |
| Lle Chwarae                         | ■ Playground                      |
| Cyfalaf/Prosiectau                  | ■ Capital/ Projects               |
| Gwasanaeth y Cofio etc              | ■ Remembrance Service etc         |



# CYNGOR CYMUNED LLANDUDOCH ST. DOGMAELS COMMUNITY COUNCIL

Swyddogaeth Cyngor Cymuned yw hyrwyddo'i ardal leol, cynrychioli ei buddiannau a chefnogi gwaith grwpiau cymunedol lleol.

Mae Cyngorau Cymuned hefyd yn darparu ystod fach o wasanaethau cyhoeddus lleol sy'n amrywio yn ôl maint y pentrefi. Fodd bynnag, mae cyfrifoldebau Cyngorau Cymuned yn gyfyngedig gan fod yn rhan fwyaf o wasanaethau llywodraeth leol yn cael eu cyflawni gan y Cyngor Sir.

St Dogmaels Community Council meets on the 4<sup>th</sup> Thursday of the month at 7p.m; the first 15 minutes are allocated to any member of the community who wishes to raise an issue with the Community Council.

Currently meetings are conducted on Zoom, an invitation to the community is extended on the website under agenda and supporting documents <http://stdogmaels.org/agenda/>

## **Beth yw Cyngor Cymuned a beth mae'n ei wneud?**

- Cyngor Cymuned yw'r lefel fwyaf lleol o lywodraeth yn y gymuned.
- Mae Cyngorau Cymuned (sy'n cyfateb i Gyngorau Plwyf yn Lloegr) yn gyrrff cyfreithiol wedi'u creu drwy Ddeddf Seneddol, ac mae ganddyn nhw hawl i godi treth leol.(a elwir yn Braesept) ar bob cartref.
- Gwneir penderfyniadau'r Cyngor gan Gyngorwyr Cymuned sy'n cael eu hethol gan bleidleiswyr lleol.
- Swyddogaeth Cyngor Cymuned yw hyrwyddo'i ardal leol, cynrychioli ei buddiannau a chefnogi gwaith grwpiau cymunedol lleol.
- Mae Cyngorau Cymuned hefyd yn darparu ystod fach o wasanaethau cyhoeddus lleol sy'n amrywio yn ôl maint y pentrefi. Fodd bynnag, mae cyfrifoldebau Cyngorau Cymuned yn gyfyngedig gan fod yn rhan fwyaf o wasanaethau llywodraeth leol yn cael eu cyflawni gan y Cyngor Sir.

## **What is a Community Council and what does it do?**

- A Community Council is the most local level of government in the community.
- Community councils (equivalent of Parish Councils in England) are legal bodies created by Act of Parliament and have the right to levy a local tax (called a Precept) on every household.
- Decisions of the Council are made by Community Councillors who are elected by local voters.
- The role of a Community Council is to promote their local areas, represent its interests and support the work of local community groups.
- Community Councils also provide a limited range of local public services which vary according to the size of the villages. However, the responsibilities of Community Councils are limited, as most local government services are undertaken by the County Council.

## **Beth mae Cyngor Cymuned Llandudoch (CCLI) yn ei wneud?**

Mae yna dipyn o ddryswch ynglŷn â phwy sy'n rhedeg pa wasanaethau cyhoeddus. Mae hynny'n ddealladwy gan nad yw bob amser yn hawdd gweld pwy sy'n gwneud beth a pham. Fodd bynnag, yn gyffredinol Cyngor Sir Penfro sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o wasanaethau llywodraeth leol.

Mae CCLI yn lobio dros weithredu cymunedol yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae CCLI yn gweithredu fel corff anstatudol i ymgynghori ag ef ynglŷn â cheisiadau cynllunio gyda Chyngor Sir Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.

Mae CCLI yn cynnig cynlluniau grant i gyrff cymunedol lleol, ac mae mwy o wybodaeth i'w gweld yma <http://stdogmaels.org/grant-funding/>

## **Cyngor Cymuned Llandudoch (CCLI) yn unig sy'n gyfrifol am:**

- Y Pinog (SddGA)
- Glanfa'r Pinog, storio cychod a'r mynediad
- Ardal yr Ardd Lysieuol a Phwll y Pentref - (ar brydles oddi wrth y Felin)

*Mae gan CCLI reolaeth uwch dros fioamrywiaeth mewn nifer o'r manau uchod*

## **Amwynderau sy'n cael eu rheoli gan CCLI):**

- Hysbysfyrddau (pan fyddant wedi'u prynu gan CCLI)
- Man Chwarae'r Plant a Gerddi Alexandra
- Arosfannau Bws
- Cofeb Ryfel

## **Digwyddiadau'n Cael eu Trefnu gan CCLI**

- Cinio Nadolig y Pensiynwyr
- Coeden Nadolig a'r Goleuadau
- Trefnu gwasanaethau ar gyfer Diwrnod Anzac, Diwrnod y Llynges Fasnach a Sul y Cofio
- Cystadleuaeth Pentref yn ei Flodau

## **Cyfrifoldeb ar y cyd â Chyngor Sir Penfro dros:**

- Sgwâr Halket a'r ardd gerllaw
- Cofeb Ryfel Llandudoch
- Datblygu Cymunedol
- Bioamrywiaeth

## **What does St Dogmaels Community Council (SDCC) do?**

There is a lot of confusion about who runs which public services. This is understandable as it is not always easy to work out who does what and why. However, generally, most local government services are the responsibility of Pembrokeshire County Council.

SDCC lobbies for community actions both locally and nationally

SDCC acts as a non statutory consultee on planning application with both Pembrokeshire County Council and Pembrokeshire Coast National Park

SDCC offers a grant funding scheme for local community organisations, more information can be found here <http://stdogmaels.org/grant-funding/>

## **St Dogmaels Community Council (SDCC) has sole responsibility for:**

- The Pinog (SSSI)
- Pinog Slipway, Boat storage and approach track way
- Herb Garden and Mill pool area - St Dogmaels Community Council (leased from Y Felin)

*SDCC has enhanced bio-diversity management in many of the above areas*

## **Amenities managed by SDCC:**

- Notice boards (where purchased by SDCC)
- Childrens' Play Area and Alexandra Gardens
- Bus Stops
- War Memorial

## **Events Organised by SDCC**

- Pensioners Christmas Lunch
- Christmas Tree and lights
- Organise services for Anzac Day, Merchant Navy Day and Remembrance Sunday
- Village in Bloom Competition

## **Joint responsibility with Pembrokeshire County Council for:**

- Halket Square and adjacent garden area
- St Dogmaels War Memorial
- Community Development
- Biodiversity